18. Mae'r Bil Awtistiaeth yn canolbwytio ar ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant ac oedolion ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig. Mae hyn yn seiliedig ar ddiagnosis yn hytrach nag ar anghenion. Heb ddiagnosis penodol, mae yna berygl na fydd unigolyn sydd â nodweddion Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn gallu manteisio ar y cymorth a'r gefnogaeth a nodir yn y ddeddfwriaeth.

*Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru lunio is-ddeddfwriaeth.*

Mae'r Bil yn cynnwys tri phŵer llunio rheoliadau penodol.

Mae **Adran 6(6)(j)** yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru i ragnodi categorïau eraill o ddata y mae'n rhaid i gyrrf y GIG ei gasglu i'w helpu i wneud diagnosis a darparu gwasanaethau ar gyfer personau ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig.

**- Adran 9 – Dehongli**

ystyr "anhwylder sbectwm awtistiaeth" yw —

(a) anhwylder sbectwm awtistiaeth fel y'i diffinnir o bryd i'w gilydd yn y Dosbarthiad Rhngwladol o Glefydau gan Sefydliadau lechyd y Byd; ac

b) at ddiben y Ddeddf hon, unrhyw anhwylder niwroddatblygiadol arall a ragnodir gan Weinidogion Cymru;

ystyr “corff perthnasol” yw awdurdod lleol, corff GIG a chyrrf eraill a ragnodir;

19. Byddai cyfyngiadau ar waith ynglŷn â sut y gellid arfer y pŵer i lunio rheoliad er mwyn ymestyn diffiniad “anhwylderau'r sbectwm awtistig” i unrhyw anhwylder niwroddatblygiadol arall fel y'i rhagnodir gan Weinidogion Cymru. Diben y Bil yw “darparu ar gyfer diwallu anghenion plant ac oedolion sydd â chyflyrau ar y sbectwm awtistig”. Felly, os yw Gweinidogion Cymru yn defnyddio'r pŵer llunio rheoliad i gynnwys cyflyrau anhwylderau niwroddatblygiadol eraill yn y diffiniad, a fyddai wedi'u cynnwys yn y diffiniad o awtisiaeth fel arfer, mae'n yn debygol o fod y tu allan i gwmpas diben y Bil.

#### *Rhwymediau*

20. Byddai angen Adolygiad Barnwrol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Bil Awtisiaeth, ond mae'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant eisoes yn cynnwys mecanweithiau ymyrryd a gorfodi Awdurdodau Lleol i gydymffurfio â'r Cod. Mae Adran 150 yn nodi bod Gweinidogion Cymru yn gallu ymyrryd os yw Awdurdodau Lleol yn methu cydymffurfio â dyletswydd sy'n swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, yn gweithredu'n afresymol wrth arfer swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol, neu'n methu â chyflawni swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol yn unol â safon ddigonol. Darperir ar gyfer cyflwyno hysbysiad rhybuddio ac i Weinidogion Cymru roi camau pellach ar waith ar ffurf camau gorfodi yn erbyn Awdurdod Lleol.

21. Yn yr un modd, mae Deddf GIG (Cymru) 2006 yn cynnwys darpariaeth i wneud gorchymyn ymyrryd a rhoi camau pellach ar waith os nad yw bwrdd iechyd lleol yn cyflawni un neu fwy o'i swyddogaethau yn fodhaol, os o gwbl, neu os oes diffygion sylweddol yn y broses o reoli'r corff, a bod Gweinidogion Cymru yn fodlon ei bod yn briodol iddynt ymyrryd.

#### *Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig*

22. Mae'r Bil Awtisiaeth yn gosod dyletswydd ar gyrrf perthnasol a Gweinidogion Cymru wrth arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf i roi sylw dyledus i egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl hŷn ac i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Hefyd, mae'n gosod dyletswydd ar gyrrf perthnasol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

23. Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ('Deddf 2018') yn gosod dyletswyddau ar gyrrf perthnasol i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau. Fodd bynnag, mae Deddf 2018 yn datgan nad yw ystyriaeth benodol o'r confensiynau yn ofynnol bob tro y caiff swyddogaeth ei harfer. Mae'r ddarpariaeth hon yn lleihau biwrocratiaeth trwy sicrhau nad oes angen ystyried y confensiynau bob tro y caiff penderfyniad ei wneud ar gyfer unigolyn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth debyg yn y Bil Awtistiaeth.
24. Hefyd, mae gofyniad Deddf 2018 i roi sylw dyledus i'r confensiynau wedi'i gyfyngu i awdurdodau lleol, ysgolion, sefydliadau addysg bellach a chyrrf GIG sy'n gweithredu ar raddfa ac sydd â strwythurau digonol ar waith i gyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol. Mae'r Bil Awtistiaeth yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru yn gallu rhagnodi cyrff ychwanegol o fewn diffiniad 'cyrff perthnasol'. O ganlyniad, byddai angen i'r cyrff ychwanegol hyn roi sylw dyledus i'r confensiynau wrth arfer eu swyddogaethau. Gallai hyn roi dyletswyddau sylweddol ar gyrrf nad oes ganddynt y fframwaith i'w hymgorffori.
25. Mae'r Bil Awtistiaeth a Deddf 2018 yn gwneud darpariaeth i'r canllawiau (yn y Bil) a'r Cod (yn Neddf 2018) nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cyflawni'r ddyletswydd i roi sylw dyledus i'r confensiynau, a dylid dehongli'r gofyniad i roi sylw dyledus yn unol ag unrhyw ddarpariaethau yn y canllawiau/cod.
26. Gan fod y Bil yn mynd ymhellach na Deddf 2018, byddai anghysondebau'n codi oherwydd gallai Deddf Awtistiaeth a Deddf 2018 fod yn berthnasol i'r un unigolyn. Byddai hyn yn creu anawsterau dehongli ar gyfer cyrff sy'n rhoi'r Ddeddfau ar waith.

#### Egwyddorion Cyffredinol y Bil

27. Os mai diben y Bil yw gwella cymorth ar gyfer pobl ag awtistiaeth, rydym yn rhannu ei uchelgais. Ond rydym yn dadlau ein bod eisoes yn meddu ar yr holl bwerau cyfreithiol sydd eu hangen i gyflwyno'r gwelliannau a nodir yn y Bil a mwy. Dylem fod yn datblygu pwerau presennol mewn deddfwriaeth ddiweddar er mwyn cefnogi'r gwelliannau sy'n cael eu rhoi ar waith.
28. Er bod Strategaeth Awtistiaeth wedi bod ar waith ers peth amser, rydym yn cydnabod ei bod yn anodd iawn ar adegau i rai pobl gael gafael ar

wasanaethau. Fel y cydnabu Paul Davies AC yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol, ac yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil, mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud dros y 12-18 mis diwethaf. Rydym wedi ystyried safbwytiau pawb sydd wedi cyfrannu at y ddadl hon – pob un ohonynt yn awyddus i weld gwasanaethau gwell. Y prif gasgliad ar sail y ffeithiau yw nad oes unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r gred y bydd deddfwriaeth awtistiaeth yn ychwanegu unrhyw werth i'r gwelliant sy'n cael ei sicrhau gennym, ac nad yw'n gallu gwarantu mynediad i wasanaethau penodol ar hyn o bryd neu yn y dyfodol.

29. Mae'r Bil yn ceisio sicrhau bod y Strategaeth Awtistiaeth yn strategaeth statudol sy'n cynnwys llwybrau diagnostig. Diweddarwyd y Strategaeth yn 2016 a chyhoeddwyd Cynllun Cyflawni newydd ym mis Medi 2018, gan gadarnhau ein hymrwymiad i God Ymarfer statudol ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth. Mae'r Bil yn ceisio gwella mynediad at wasanaethau gofal cymdeithasol, ond mae'n rhaid i ni sicrhau gwelliannau o'r fath ar gyfer pawb, waeth beth fo'u cyflwr neu i ba grŵp bynnag y maen nhw'n perthyn.
30. Byddwn yn parhau i gyflawni ein hymrwymiadau awtistiaeth trwy ddeddfwriaeth bresennol, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn benodol. Mae angen amser i gyflwyno a sefydlu ddeddfwriaeth a gwasanaethau newydd sydd wrthi'n cael eu datblygu, ac mae angen i ni ddysgu gwersi o'u gwerthusiad cyn ystyried a oes angen rhagor o ddeddfwriaeth.
31. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Comisiynydd Plant yn cyfeirio at ei hadroddiad *Peidiwch â dal yn ôl* yn 2018, gan nodi bod fframwaith deddfwriaethol cadarn ar waith i gynllunio a darparu gwasanaethau cymorth sy'n canolbwytio ar yr unigolyn, gan gynnwys pobl ag awtistiaeth. Rydym yn cytuno â'i barn y gellid defnyddio deddfwriaeth bresennol yn fwy effeithiol, a dyna pam rydym wedi ymrwymo i gyflwyno Cod Ymarfer.
32. O safbwyt dyletswyddau eraill yn y Bil, mae'n ceisio hyrwyddo hyfforddiant staff ymysg gweithwyr proffesiynol; rydym eisoes yn gwella ymwybyddiaeth trwy hyrwyddo'r defnydd o'r Fframwaith Hyfforddiant Awtistiaeth ar gyfer Cymru er mwyn asesu anghenion hyfforddiant a fydd yn cael eu hyrwyddo trwy'r Cod Ymarfer ar Awtistiaeth. Nid yw'r Bil yn gwneud hyfforddiant proffesiynol yn orfodol.

33. Mae Tîm Datblygu Cenedlaethol Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig wedi creu amrywiaeth eang o adnoddau a deunyddiau hyfforddi llwyddiannus. Er enghraifft, mae'r fideo *Weli Di Fi?* yn ceisio codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol. Yn dilyn gwaith mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, mae'r adnodd hwn wedi'i gyfieithu mewn pedair gwlad Ewropeaidd arall - Sbaen, yr Eidal, Lithuania a Latfia. Mae'r adnodd hwn ac adnoddau eraill ar gael ar y wefan bwrpasol ar gyfer cyflawni'r Strategaeth Awtistiaeth - [www.asdinfowales.co.uk](http://www.asdinfowales.co.uk).

34. Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig wedi denu amrywiaeth eang o staff profiadol ac arbenigol, gan gynnig hyfforddiant ar gyfer meysydd arbenigol eraill fel iechyd meddwl ac anableddau dysgu er mwyn srichau bod eu gwybodaeth arbenigol yn cael ei rhannu. Hefyd, mae datblygu'r gweithlu yn rhan hanfodol o'r Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Rydym yn gweithio gyda 5 arweinydd Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn cyflwyno pecyn cynhwysfawr i ddatblygu hyfforddiant a sgiliau craidd pob ymarferydd, gan gynnwys hyfforddiant awtistiaeth.

#### Deddfwriaeth mewn rhannau eraill o'r DU

35. Yn ei dystiolaeth, mae Paul Davies AC yn cyfeirio at adroddiad gan Lemmi, Knappe a Ragan (2017) – *The Autism Dividend*, gan nodi bod angen deddfwriaeth i roi grym statudol i strategaeth awtistiaeth. Mae dystiolaeth o wledydd eraill yn y DU sydd â Deddf Awtistiaeth yn dangos yn glir nad yw deddfwriaeth wedi arwain at y manteision a gafodd eu rhagweld, hyd yn oed os yw canllawiau statudol ychwanegol ar waith. Mae'n bwysig nodi bod deddfwriaeth awtistiaeth debyg mewn rhannau eraill o'r DU wedi'i chyflwyno bron i ddegawd yn ôl, cyn cyflwyno deddfwriaeth fodern sy'n canolbwytio ar yr unigolyn, yn rhoi blaenoriaeth i'r unigolyn wrth wneud penderfyniadau, ac yn bwysicaf oll, yn nodi bod angen darparu gwasanaethau ar sail angen.

36. Fel mae cyfranwyr eraill wedi'i nodi hefyd, ychydig iawn o dystiolaeth sydd i ddangos bod cynnydd wedi'i wneud yn Lloegr bron i ddegawd ar ôl cyflwyno Deddf Awtistiaeth 2009. Mae Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn honni bod argyfwng diagnosis cenedlaethol yn bodoli, ac mae dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Public Health England yn dangos mai dim ond 22% o awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n llwyddo i gyrraedd yr amseroedd aros a argymhellir. Honnir bod pobl yn aros am hyd at ddwy flynedd mewn rhai ardaloedd.

- 37.Yn yr un modd, mae adroddiad diweddaraf yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd y Cyhoedd yng Ngogledd Iwerddon ar gyflwyno'r Ddeddf wedi nodi'r canlynol: "*it is not currently possible to guarantee early intervention as outlined in the Autism Strategy without additional funding to further develop autism-specific assessment services, and to extend the portfolio of available family support.*"
- 38.Fe aeth Senedd yr Alban at i ystyried yr angen am ddeddfwriaeth awtistiaeth yn 2010. Daeth i'r casgliad na fyddai Bil yn goresgyn y rhwystrau i ddarparu gwasanaethau nac yn bodloni disgwyliadau pobl ag awtistiaeth. Nododd nad yw cyflwyno rhagor o ddeddfwriaeth yn ymateb priodol i'r ffaith fod deddfwriaeth sydd eisoes yn bodoli yn cael ei chyflwyno'n wael, a bod angen mwy o amser i werthuso effaith deddfwriaeth berthnasol a gyflwynwyd yn ddiweddar. Hefyd, mynegwyd pryderon ynglŷn â chreu 'dwy haen' o strategaethau.

#### Yr Effaith ar Ddeddfwriaeth Bresennol ac ar Ddatblygu Polisi Llywodraeth Cymru

- 39.Rydym yn rhannu barn llawer o gyfranwyr eraill bod modd siccrau gwelliannau i wasanaethau awtistiaeth trwy ddefnyddio deddfwriaeth bresennol. Mae Paul Davies AC yn datgan y bydd y Bil yn ategu deddfwriaeth bresennol ac yn sylfaen iddi. Fodd bynnag, rydym yn dadlau'n gryf y byddai deddf sy'n seiliedig ar ddiagnosis neu gyflwr yn mynd yn gwbl groes i'r broses o gyflwyno deddfwriaeth fodern, sy'n defnyddio angen asesedig unigol yn sylfaen i ddarparu gwasanaethau yn hytrach na diagnosis penodol.
- 40.Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, un o brif swyddogaethau'r Bil yw *siccrau bod gwasanaethau awtistiaeth cyson a pharhaus yn cael eu darparu ledled Cymru*. Fel y nododd y Comisiynydd Plant yn ei thystiolaeth hi, os mai'r nod yw siccrau gwasanaethau awtistiaeth parhaus, bydd modd gwneud hynny trwy ddefnyddio cynlluniau i gyhoeddi Cod Ymarfer ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth o dan ddeddfwriaeth bresennol.

#### Gwybodaeth ac ymwybyddiaeth

- 41.Mae'r Bil yn codi mater pwysig yn ymwneud â gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth am hawliau a gwasanaethau presennol. Mae Tîm Datblygu Cenedlaethol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi gwneud gwaith da yn codi ymwybyddiaeth, fel y nodwyd yn ei adroddiad blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Mehefin. Eleni mae'n cyflwyno rhagleni pwrpasol i

godi ymwybyddiaeth, ac yn cynnal cynhadledd awtistiaeth genedlaethol ar gyfer pobl ag awtistiaeth fis Ebrill nesaf.

42. Fel rhan o'r ymgynghoriad arfaethedig ar y Cod Ymarfer ar Gyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth, byddwn yn holi pobl ag awtistiaeth, eu rhieni a'u gofalwyr sut y gellir gwella mynediad at wybodaeth a chyngor priodol.

#### *Casglu Data*

43. Ers cyflwyno'r Strategaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig gyntaf, rydym wedi ystyried gwerth a manteision casglu data o safbwyt yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod data dibynadwy yn cael ei gasglu'n gyson.

44. Bydd y gofyniad manwl am ddata ar unigolion penodol yn y Bil hwn yn darparu gwybodaeth am nodweddion unigol y rhai sydd â diagnosis, ond ni fydd yn dweud unrhyw beth am effaith gwasanaethau. Fel mae clinigwyr y Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a'r Gymuned Ymarfer ar gyfer Diagnosis Oedolion yn ei nodi yn eu tystiolaeth, mae lefel y data sydd ei angen gan y Bil yn feichus, ac ni fydd yn ychwanegu llawer o wybodaeth berthnasol at feysydd cynllunio a chomisiynu. Ceir yr argraff mai casglu data er ei fwyn ei hun y mae'r gofyniad hwn, ac mae angen sicrhau y bydd yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

44. Roedd rhai o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Bil yn mynegi pryder am lefel y wybodaeth berthnasol sydd angen ei chasglu. Efallai y bydd casglu a dadansoddi gwybodaeth bersonol fanwl trwy rif y GIG yn ddefnyddiol at ddibenion ymchwil, ond rydym yn cwestiynu a yw hyn yn angenrheidiol ac a fydd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen i gynllunio gwasanaethau.

45. Mae tystiolaeth yr Uned Pobl mewn Gwaith, sy'n gwerthuso ein Strategaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig, yn nodi bod cyfraddau achosion cydnabyddedig yn fesur digonol o nifer y bobl ag awtistiaeth. Mae'n nodi bod yna ddadl gref o blaid casglu data ansoddol sy'n canolbwytio ar ganlyniadau yn ymwneud â phrofiadau o awtistiaeth a defnyddio gwasanaethau, a bod y dull hwn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

46. Er mwyn darparu gwybodaeth fanylach am nifer y bobl sydd ag awtistiaeth a chodi ymwybyddiaeth o'u hanghenion, rydym yn cyflwyno cofrestr awtistiaeth i feddygon teulu sy'n nodi nifer y cleifion sydd â diagnosis. Hefyd, trwy'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a Gwasanaeth Niwroddatblygiadol Plant rydym yn gweithio mewn partneriaeth i sefydlu mesurau seiliedig ar ansawdd sy'n gallu darparu tystiolaeth am bellteroedd teithio a manteision gwasanaethau i unigolion.

47. O dan ddyletswyddau presennol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), rydym yn ymestyn y themâu craidd ar gyfer Asesiadau Gorfodol o Anghenion y Boblogaeth i gynnwys awtistiaeth fel tema annibynnol. Mae'r asesiadau hyn yn cael eu cwblhau ar y cyd gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol trwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
48. Mae cyflwyno proses newydd o gasglu data yn fater cymhleth gan fod angen sicrhau bod modd cymharu data ar draws gwasanaethau, a'i fod yn ddibynadwy ac yn gyson. Rydym wrthi'n treialu safon amser aros diagnostig 26 wythnos, a bu'r dull gweithredu hwn yn destun trafodaeth ac adolygu sylweddol er mwyn sicrhau bod ansawdd y data sy'n cael ei gasglu yn ddigon da i'w gyhoeddi. Fel rhan o'r cynllun peilot, bydd y data hwn ar gael ar wefan Stats Cymru os yw'r ansawdd yn ddigon da.

#### Canlyniadau Anfwriadol

49. Ein pryder mwyaf yw'r ffaith y gall y Bil barhau i godi disgwyliadau uchel ymysg pobl ag awtistiaeth ar gyfer mynediad ffafriol at wasanaethau a'r posibilrwydd y bydd mwy o wasanaethau ar gael diolch i'r ddeddfwriaeth. Fel mae'r Comisiynydd Plant wedi'i nodi, mae'n bosibl na fydd y Bil yn arwain at unrhyw beth mwy na'r ddarpariaeth bresennol.
50. Gall y posibilrwydd o gyflwyno deddfwriaeth fod yn ddeniadol i lawer o bobl. Ond yn ogystal â'r dystiolaeth gan gyrff statudol a Cholegau Brenhinol yn ymwneud â gwendidau'r ddeddfwriaeth, roedd ymatebion rhai grwpiau o rieni a phobl ag awtistiaeth i'r ymgynghoriad yn amau a fydd y Bil yn cyflawni ei fwriad mewn gwirionedd.
51. Rydym yn deall bod ymarferwyr Gofal Sylfaenol yn rhwystredig na allant atgyfeirio cleifion i wasanaethau awdurdodau lleol, a byddwn yn ystyried sut mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn pontio'r bwlch ymddangosiadol hwn rhwng iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid pwysleisio eto na all Bil Awtistiaeth ei gwneud yn ofynnol i ddarparu gwasanaethau penodol.
52. Mae cefnogwyr y Bil yn credu bod angen deddfwriaeth er mwyn gorfodi awdurdodau i ddarparu'r gwasanaethau sy'n cael eu ffafrio gan bobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Mae'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol eisoes wedi clywed dystiolaeth gan Paul Davies AC ynglŷn â rhwymedïau o dan y ddeddfwriaeth arfaethedig. Nid oes unrhyw rwymedïau penodol wedi'u cynnig ac eithrio'r cyfle i ofyn am adolygiad barnwrol, fel sy'n wir am ddeddfau eraill Cymru. Nid wyddom am unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu

bod deddfwriaeth awtistiaeth wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn adolygiadau barnwrol yn Lloegr, er gwaetha'r diffyg cynnydd sydd i'w weld. Mae hyn yn wahanol i'r rhwymedïau sydd ar gael trwy God Ymarfer ar Awtistiaeth, sy'n gryfach am eu bod yn galluogi Gweinidogion Cymru i ymyrryd mewn darpariaeth gwasanaethau. Hefyd, mae'r Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn cynnwys hawl i apelio i dribiwnlys addysg.

#### Gwasanaethau Seiliedig ar Anghenion

53. Pryder cyffredin arall rydym yn ei rannu â llawer o'n partneriaid cyflenwi ac ymarferwyr yw'r ffaith fod ysbryd y ddeddfwriaeth hon yn gwbl groes i'n dull deddfwriaethol modern fel y'i nodir yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Gall y ddeddfwriaeth hon danseilio ein rhaglen diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol, sy'n seiliedig ar anghenion ac sydd i'w chyflwyno o 2020 ymlaen, trwy greu amgylchedd lle y gall diagnosis o awtistiaeth arwain at driniaeth ffafriol o safbwyt cymorth a gwasanaethau.
54. Yn ôl tystiolaeth a gyflwynwyd gan Gonffederasiwn y GIG a Cholegau Brenhinol Seiciatreg, Therapi Llefydd ac Iaith a Therapyddion Galwedigaethol, byddai system sy'n seiliedig ar ddiagnosis yn cynyddu nifer yr atgyfeiriadau a'r pwysau i ddarparu diagnosis o awtistiaeth, wrth i ddiagnosis gael ei weld fel y llwybr gorau i gael mynediad at wasanaethau. Mae'r angen am ddiagnosis er mwyn cael gafael ar adnodd yn debygol o gynyddu cyfraddau diagnosis mewn ffordd artifisial am y rhesymau anghywir. Hefyd, mae'r Comisiynydd Plant yn cyfeirio at y posibilrwydd y bydd awtistiaeth yn cael ei ystyried yn '*docyn aur*' ar gyfer mynediad at wasanaethau, ond mewn gwirionedd mae grwpiau o blant eraill, fel y rhai ag anghenion iechyd meddwl ac anawsterau dysgu, hefyd yn wynebu heriau wrth gael gafael ar wasanaethau priodol.
55. Bydd y Bil yn tanseilio'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud wrth ddatblygu gwasanaethau asesu a diagnostig niwroddatblygiadol. Bydd y broses o wahanu awtistiaeth oddi wrth gyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn rhwystro llawer o bobl rhag cael mynediad at wasanaethau. Hefyd, bydd yn rhwystro gwasanaethau seiliedig ar anghenion, yn enwedig os oes gan unigolion gyflyrau sy'n cydfodoli neu gyflyrau na ellir darparu diagnosis ar eu cyfer yn hawdd. Bydd yn arwain at fylchau mewn darpariaeth i rai pobl nad ydynt yn bodloni'r mein prawf diagnostig. Canlyniad anfwriadol arall sy'n deillio o bwysau ychwanegol i wneud diagnosis yw'r posibilrwydd o wneud diagnosis amhriodol, yn enwedig yn achos plant. Mae'n bosibl na fyddant yn dymuno bod â diagnosis o'r fath yn ddiweddarach mewn bywyd os nad oedd yn ddiagnosis priodol ar y pryd.
56. Mae adborth gan ymarferwyr a thystiolaeth gan werthuswyr annibynnol Strategaeth Anhwylderau'r Sbectwm Awstistig yn ymwneud â'r targedau amser aros

13 wythnos arfaethedig yn nodi bod y ddyletswydd hon yn debygol o orfodi gwasanaethau i ganolbwytio adnoddau prin ar gyflawni dyletswyddau'r Bil. Bydd hynny'n golygu cynnal mwy o asesiadau diagnostig ar draul darparu cymorth pwysig cyn ac ar ôl asesiadau diagnostig. Mae'r gwerthusiad wedi nodi bod darparwyr gwasanaethau eisoes yn pryderu am gapasiti yn y dyfodol i fodloni'r galw am ddiagnosis. Bydd deddfwriaeth sy'n canolbwytio gwasanaethau ar un diagnosis yn cynyddu'r galw hyd yn oed yn fwy.

57. Ni fydd cyflwyno targedau ar gyfer amseroedd aros heb sail resymegol neu fod o wneud hynny yn sicrhau'r canlyniadau dymunol. O dan y dyletswyddau newydd arfaethedig, byddai angen i fyrrdau iechyd nodi bod asesiad plentyn wedi cychwyn ar ôl 13 wythnos, ond nid oes unrhyw esboniad ynglŷn ag ystyr hyn yn ymarferol. Gallai olygu dim byd mwy na derbyn atgyfeiriad neu anfon llythyr yn nodi hynny. Rydym yn ymestyn gwerthusiad presennol y cynllun gweithredu awtisiaeth er mwyn ymchwilio i'r rhwystrau sy'n parhau i leihau amseroedd aros diagnostig, er gwaethaf buddsoddiad ychwanegol sylweddol ers 2015. Byddwn yn ceisio nodi camau gweithredu pellach.
58. Mae'r Bil yn creu'r argraff y bydd pobl ag awtisiaeth yn derbyn gwasanaethau ffafriol. O reidrwydd, mae hyn yn golygu y bydd adnoddau'n cael eu dargyfeirio o wasanaethau eraill, gan greu cymorth anghyfartal ar gyfer unigolion eraill sydd ag anghenion cymorth sylweddol eraill, fel pobl ag anableddau dysgu neu namau ar y synhwyrau. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i ddarparwyr gwasanaethau awtisiaeth ddargyfeirio adnoddau o ymyraethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn bodloni gofynion deddfwriaeth, gan symud adnoddau o wasanaethau ar ôl gwneud diagnosis i wasanaethau cyn gwneud diagnosis.
59. Nid ydym yn derbyn y ddadl y bydd gofyniad am wasanaethau ar gyfer un cyflwr yn gwella gwasanaethau ar gyfer cyflyrau eraill yn awtomatig. Yn ogystal â phryderon ariannu, mae yna brinder staff â'r cymwysterau priodol i ddarparu cymorth. Os yw cymorth ar gyfer awtisiaeth yn orfodol, bydd angen i wasanaethau ganolbwytio ar y cyflwr hwnnw.
60. Hefyd, rydym yn cwestiynu a oes modd ymestyn y Bil i gynnwys cyflyrau niwroddatblygiadol eraill yn unol â'r cynnig. Fel y nodwyd yn gynharach, mae hyn yn debygol o fod y tu allan i ddibenion y ddeddfwriaeth. Yn ei dystiolaeth, mae Paul Davies AC yn nodi'n glir mai Bil ar gyfer pobl ag awtisiaeth yn unig yw hwn. Bydd hyn yn rhoi pobl eraill o dan anfantais yn syth, gan gynnwys pobl â chyflyrau niwroddatblygiadol eraill, y rhai nad ydynt yn perthyn i gategorïau diagnostig clir a phobl sydd ag anghenion cymorth arwyddocaol eraill ond nad ydynt yn bodloni mein prawf diagnostig.

#### Asesiad Effaith Rheoleiddiol

61. Mae'n amlwg bod goblygiadau economaidd a chymdeithasol gwirioneddol ynghlwm wrth Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig ar gyfer unigolion, eu rhiant/rhieni neu eu gofalwr/gofalwyr ac ar gyfer cymdeithas yn ehangach.

62. Fel sy'n wir am bob Asesiad Effaith Rheoleiddiol, mae'r dadansoddiad yn cynnwys elfen o ansicrwydd, ond ymddengys bod y dull methodolegol cyffredinol yn debyg i'r hyn sy'n cael ei ddilyn gan Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Fodd bynnag, mae angen egluro rhai elfennau o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn fanylach er mwyn gallu profi dibynadwyedd y cyfrifiadau a nodi meysydd lle y byddai tystiolaeth ychwanegol i ategu dadansoddiad yn ddefnyddiol.

63. Mae nifer o ddarpariaethau'r Bil yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i wneud pethau sydd eisoes yn cael eu gwneud. Er enghraift, mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth awtisiaeth ar waith eisoes, mae Cod Ymarfer yn cael ei ddatblygu, mae ymgrych codi ymwybyddiaeth eisoes wedi'i lansio ac mae rhaglen hyfforddiant ar waith ar gyfer gweithwyr gofal iechyd ac addysg proffesiynol. Felly, gellir cwestiynu a yw'r costau a nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y gweithgareddau hyn yn gostau ychwanegol i'r llinell sylfaen.

64. Mae'n anodd penderfynu beth fydd costau a manteision ychwanegol y Bil. Mae'r dystiolaeth yn ymwneud â manteision posibl y Bil yn gymharol wan. Awgrymir y bydd gostyngiad o 1% yn y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yn arbed £1 miliwn y flwyddyn, ond ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael i ddangos sut fydd y Bil yn arbed yr arian hwn. O ystyried yr amcangyfrifir mai tua £1.1 biliwn y flwyddyn yw cost uniongyrchol ac anuniongyrchol Anhwylderau'r Sbectwm Awtistig yng Nghymru, byddai gostyngiad o 1% yn y gost yn arwain at arbedion gwerth £11 miliwn ac nid £1m fel y nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## Cyfeiriadau

Comisiynydd Plant Cymru – Ymateb i'r Ymgynghoriad ar Fil Awtisiaeth (Cymru)

Community of Practice for Adult Diagnosis and IAS Practitioners (2018) – ymateb i'r Bil Awtisiaeth arfaethedig

Lemi, Knapp a Ragan (2017) The Autism Dividend. Reaping the rewards of better investment.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) 19 Medi – Trawsgrifiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru 24 Medi – y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Chyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Bil Awtistiaeth (Cymru) – ymatebion i'r ymgynghoriad

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth – [www.bbc.co.uk/news/uk-england-norfolk-41112597](http://www.bbc.co.uk/news/uk-england-norfolk-41112597)

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth -[www.autism.org/get-involved/media-centre/news/2017—7-05-autism-support-report-england.aspx](http://www.autism.org/get-involved/media-centre/news/2017—7-05-autism-support-report-england.aspx)

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth – Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon, Medi 2018

Ymateb ysgrifenedig Confederaliwn GIG Cymru i waith craffu ar Fil Awtistiaeth (Cymru) gan Gonffederaliwn GIG Cymru.

Uned Pobl a Gwaith (2018) Cyflwyniad Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Bil Awtistiaeth (Cymru) Arfaethedig (Bil wedi'i Gynnig gan Aelod Cynulliad): Papur Briffio ar gyfer Coleg Brenhinol y Seiciatryddion, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (RCPCH), Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol (RCOT), Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol a Chonffederaliwn GIG Cymru.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2018) Tystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i Fil Awtistiaeth Cymru.

## Cwmniau Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

### National Assembly for Wales

Children, Young People and Education Committee

Dr Dai Lloyd AC

Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

E-bost

18 Hydref 2018

Annwyl Dai,

### Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20

Cyn i'n pwyllgorau priodol graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019–20, roeddwn am ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am ddull arfaethedig y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

Ysgrifennais at Ysgrifenyddion a Gweinidogion Cabinet perthnasol Llywodraeth Cymru ym mis Awst 2018 i ofyn am wybodaeth ysgrifenedig i lywio ein gwaith craffu. Mae fy llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol wedi'i gyhoeddi, a gall fod o ddiddordeb i chi o ystyried natur drawsbynciol ein cylchoedd gwaith. Er mwyn osgoi dyblygu ymdrech yn ddianghenraig, os oes materion sy'n berthnasol i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol plant yr hoffech i ni eu cynnwys yn ein gwaith craffu ar Lywodraeth Cymru, rhowch wybod i mi.

Roeddwn hefyd am dynnu eich sylw, yn sgil ein hymchwiliad diweddar i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, a chanfyddiadau ein hadroddiad Cadernid Meddwl, mai un o'r meysydd rydym yn debygol o ganolbwytio arnynt yw'r cyllid sydd ar gael ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc, gan gynnwys y cyllid sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Eto, os oes materion penodol sy'n ymwneud ag iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yr hoffech i ni roi sylw iddynt, cysylltwch â ni.



Rwy'n gobeithio y bydd y llythyr hwn yn ddefnyddiol i chi ac y bydd yn ein galluogi i rannu unrhyw wybodaeth berthnasol â'n gilydd.

Yn gywir,



Lynne Neagle AC  
Cadeirydd



Tudalen y pecyn 173

## **Eitem 7.2**

Myllor a Chwaraeon Cymdeithasol a Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon

Health, Social Care and Sport Committee

HSCS(5)-29-18 Papur 6 / Paper 6

Thank you for your e mail dated 3rd October 2018 regarding the enquiry into Dentistry in Wales being carried out by the Health, Social Care and Sport Committee.

The Health Board procures primary care dental services for Hywel Dda residents by entering into contracts with dental Contractors for the delivery of units of dental activity (treatments). In doing this the Health Board follows a national contracting framework known as the Dental Contract.

If the dental Contractor does not deliver the contracted activity levels (actual units of dental activity delivered are less than the contracted level of activity) then any overpayments that have been made to the dental Contractor during the year will need to be reviewed and recovered if appropriate. This is enacted in accordance with the nationally agreed Dental Contract and demonstrates appropriate governance, value for money, and Contract monitoring.

The Health Board is required under the national Dental Contract to recover money non-recurrently from the Contractor to reflect the fact that they have not met their contractual obligations for a specific financial year. To emphasise the point, this is not a punitive action, but merely reflects the agreed Contractual process and ensures that dental Contractors are paid for the actual activity they deliver in a particular year.

However, in 2015/16, 2016/17 and 2017/18 the Health Board saw an unprecedented level of unplanned underperformance against dental Contracts. In both years a significant proportion of the underperformance (in excess of 80%) related to a specific corporate provider.

The underperformance seen in Hywel Dda Health Board in the financial years 2015/16, 2016/17 and 2017/18 is shown in the table below.

Contractual Underperformance	
	£m
2015/16	0.279
2016/17	1.455
2017/18	0.838

Generally, and with the agreement of the dental Contractor, the Health Board would not seek to recover any small amounts of underperformance from contractors in return for the contractor agreeing to make good the underperformance in the subsequent financial year. However, where underperformance is of the levels seen over the past three financial years, recovery by the Health Board is expected in line with the Contractual process.

Whilst reinvestment of all of the underperformance recovered into Primary Care General Dental Services is always desirable, this is not practically possible in year, as dental Contractors do not always have the workforce capacity to undertake large amounts of non-recurrent General Dental Services activity in any particular financial year. In addition to this the Hywel Dda area is experiencing recruitment and retention issues for existing Practices to either increase capacity within existing contracts or to set up new NHS businesses. As an example the Health Board has tried to attract a new Dental Practice into South Ceredigion on two previous occasions and there have been no expressions of interest received despite increasing the financial value of the contract available to the dental Contractor.

There are other issues that impact on the ability to reinvest funding in a timely manner. Under performance is not normally quantified until the second half of any particular financial year. To reinvest the level of underperformance experienced in Hywel Dda in the years in question there would need to a tender process enacted, in accordance with the SFI and Dental Contract, which can take up to six months. In this sort of time frame it is challenging to re-invest the funding in year and comply with NHS Accounting rules that do not allow the roll forward of resource allocation into subsequent financial years.

In order to mitigate against these occurrences in future, Hywel Dda University Health Board has developed a four year investment plan with the agreement of the Chief Dental Officer for Wales, to cover a period encompassing the years 2017/18 to 2020/21, which ensures that at the end of this period the Health Board will spend the entire ring fenced allocation on sustainable General Dental Services for its population. As stated this plan has been endorsed to by both the Health Board, and Welsh Government through the Chief Dental Officer for Wales.



Head of Dental & Optometry Services / Pennaeth Gwasanaethau Deintyddol a Optometreg

Hywel Dda University Health Board / Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda  
Hafan Derwen, St David's Park / Hafan Derwen, Parc Dewi Sant

Jobswell Road, Carmarthen / Heol Jobsowell, Caerfyrddin  
SA31 3BB

Email / E-bost : [REDACTED]

Tel / Rhif Ffôn: [REDACTED]

WHTN [REDACTED]

Mob / Ffôn Symudol : [REDACTED]



Claw back was mainly due to recruitment issues. The majority of Powys contracts are with a Corporate who are currently experiencing recruitment issues which resulted in the clawback.

Powys in an attempt to solve the problem of access has decided to invest in some salaried general dental practitioner posts to complement the general dental service. It has also invested in creating a foundation post to further attract dentists into the area.

**Eitem 7.4**  
Pwyllgor Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Chwaraeon  
Health, Social Care and Sport Committee  
HSCS(5)-29-18 Papur 8 / Paper 8



**National  
Autistic  
Society  
Cymru**

**National Autistic Society Cymru**  
2<sup>nd</sup> Floor / 2il Lawr  
Lancaster House / Ty Lancaster  
106 Maes-y-Coed Road /  
106 Ffordd Maes-y-Coed  
Heath / Y Waun  
Cardiff / Caerdydd  
CF14 4HE



Hydref 17 October 2018

Dai Lloyd AM/AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon / Chair, Health, Social Care and Sport Committee  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru / National Assembly for Wales  
Caeryddd / Cardiff Bay  
CF99 1NA

Annwyl Dai Lloyd

During our evidence session on the Autism (Wales) Bill, on the 3 October 2018 we mentioned that Wales has around 34,000 autistic people. Your fellow committee member Angela Burns AM asked for a breakdown of the total number of children with autism in Wales.

We are happy to clarify that the figures we currently use on numbers of autistic people in Wales are estimates, based on prevalence research applied to the latest census results. Using those estimates, we would say that there were around 5,000 school aged children on the autism spectrum in Wales. The latest statistics from Welsh Government set out that 7,655 children get extra help in school because of their autism.

In addition, it is also worth highlighting that of those who lodged an appeal with the Education Tribunal during 2015-2016, nearly 40 appeals were identified as having autism as their main special education need (SEN). This was the highest figure of all appeals made by the person's SEN. This shows a particular high level of difficulty in the system in getting the right type of help made available for children with this particular disability and why specific attention needs to be paid to the needs of autistic people.

As the NHS in Wales doesn't currently routinely collect data on autism diagnosis, we don't currently have the clear picture on numbers and needs that we need in order to plan effectively.

Could we also take this opportunity to clarify a point made during the evidence session? Fellow member Dawn Bowden quoted from page 10 of the Autism Dividend report, which

said that: 'Yet nearly a decade on, the needs of autistic people are still unmet and the expected economic dividend never materialised.'

However, it is also incredibly important to note that the report also states that: 'The existence of autism legislation [in England] at a time when budgets at local level are under increasing pressure has ensured a focus on autism that would not have been possible without the Act.'

And in relation to the Welsh legislation the report goes on to say that: 'The Welsh Government rejected calls for an Autism Act, believing that other current developments will support autistic people effectively. However, without such legislation, government initiatives lack statutory force resulting in an inability to require local authorities to implement the strategy to the full.' Far from suggesting that legislation isn't the answer, the report actually recommends legislation in Wales.

Finally, we were questioned several times around unintended consequences of legislation in terms of potential for over diagnosis and also concerns that a new law on autism in Wales would lead to calls for a law on other conditions. We would like to make it clear that it is not our experience that this has happened in England or Northern Ireland. Moreover, we know that legislation and policy development in Wales is evidenced-based and so we would suggest to the Committee to consider the evidence on whether any of the potential unintended consequences raised as concerns have come to pass in other UK nations as part of its scrutiny.

Yn gywir iawn

[REDACTED], Rheolwr Materion Allanol / External Affairs Manager  
[REDACTED], Cyfarwyddwr Materion Allanol a Newid Cymdeithasol / Director of External Affairs and Social Change